Cynllunio Dosbarth Gwenllian	Tymor yr Haf 2020 – THEMA: EIN BYD, EIN CYFRIFOLDEB? Gweithio Adre – WYTHNOS 10 - 12. COFIWCH LENWI SPEAKR https://6692173.speakr.co.uk
Ble mae'r gwaith?	Da iawn chi Ddosbarth Gwenllian am eich holl waith mor belled – tair wythnos i fynd! I'r rhai sydd heb ymuno â Google Classrooms eto, ewch i'ch e-bost Hwb/Office365/Outlook i weld y neges dwi wedi danfon atoch a chliciwch ar JOIN. Os na allwch wneud hyn, ewch i 'Cyhoeddiadau' yn Dosbarth Digidol Gwenllian ac agorwch 'Google Classroom' am y cyfarwyddiadau a'r côd. Os cewch drafferth, fe fyddaf yn gweld rhai ohonoch yn yr ysgol a'r gweddill ohonoch - gadewch neges ar j2Message, mewn e-bost neu yn 'Trafodaethau' yn Nosbarth Digidol Gwenllian a phan na fyddaf yn cymryd dosbarth, gallwn ddatrys y broblem. **(Well done Dosbarth Gwenllian for your work so far – 3 weeks to go! Those of you who haven't joined Dosbarth Google Gwenllian yet, open your e-mail Hwb/Office 365/Outlook and click JOIN on the message that I've sent or, open 'Announcements' in Dosbarth Digidol Hwb and click on Google Classroom for the instructions and code. If you have difficulty, I will see some of you in school. If not, leave a message on J2Message, in an e-mail or in 'Discussions' in Dosbarth Digidol Gwenllian and when I'm not taking a class, we will solve the problem.)**
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg	Cwblhewch y gwaith yn y llyfryn iaith a gewch pan ddewch i'r ysgol (fe drefnaf gael y llyfrynnau i'r rhai sydd ddim yn dod mewn). 1. Tasg Brawddegau tud 20-22. 2. Treiglo ar ôl 'fy' - tud 24+25 3. Sillafu geiriau – tud 32a i ddechrau ac os ydych yn gwybod sut i'w sillafu, ewch ymlaen i 32b a 32c. 4. Defnyddio 'iddyn nhw' yn gywir - tud 67. (Those in school will receive a Welsh booklet and I shall find a way to get them to the others. 1. A task on forming sentences. 2. Mutations 3. Spelling high frequency words. 4. Using the correct form of prepositions)
Ieithoedd, Llythrennedd A Chyfathrebu English	Complete a comprehension task on the last two chapters of Greta's Story – **Greta's Story Chapters 8+9** in **Dosbarth Google Gwenllian**. 2. Write a book review on Greta's Story, The Schoolgirl Who Went on Strike to Save the Planet – **Google Classrooms**, click on **Google Apps** (the grid of 9 dots), choose Slides and use the **Book Review** template to adapt/complete.
Mathemateg a Rhifedd	Fe fyddwch yn cael y gwaith Mathemateg yn yr ysgol dydd Mawrth. (Fe drefnaf gyda'r rhai na fydd yn dod mewn.) 1. Creu graffiau amrywiol yn y llyfryn Trin Data. 2. Onglau a thrionglau. 3. Adolygu tablau. (The work will be given on Tuesday in school. I shall find a way to get the booklets to those who are not coming in.)
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	1. **Arbrawf cymharol newid hinsawdd** – agorwch yr arbrawf yn Google Classroom ar Google Slides, dilynwch y cyfarwyddiadau i gynnal yr arbrawf a chofnodwch eich atebion lle mae'n gofyn i chi wneud. I'r rhai ohonoch sydd am waith ychwanegol, eisiau dysgu mwy cyn mis Medi, neu a fydd yn chwilio am rywbeth i wneud yn ystod gwyliau'r Haf, gallwch wneud 2. a 3. hefyd: 2. Gweithio ar y llyfryn Nodweddion Defnyddiau. 3. Gweithio ar y llyfryn Solid, Hylif a Nwy. (Climate change comparative test – follow the instructions and record your results on the Google Slides document in Google Classroom. For those of you who would like extra work in order to learn more before September or who will be looking for something to do during the Summer holidays, you could work on the Characteristics of Materials booklet and the Solid, Liquid and Gas booklet.)
Iechyd a Lles	1. Cynhaliwch eich diwrnod mabolgampau teulu eich hun. Cynlluniwch 5 camp o'ch dewis, trefnwch y cystadlu a chofnodwch eich canlyniadau mewn tabl/grid/graff. Gwiriwch https://youtu.be/VaRoWAIkLPI os ydych am syniadau. 2. Agorwch eich proffil personol yn j2E er mwyn ei addasu/diweddaru cyn dechrau ym Ml 6. (1. Hold your own family sports day. Plan 5 events, organise the competitions and record your results in a table/grid/graph. Visit the above link for ideas if you need them. 2. Check your personal profile in J2E in order to see if it needs adapting/updating before you begin in Year 6.)

Celfyddydau Mynegiannol	1. Dewiswch 4 darn dra gwahanol o gerddoriaeth, plygwch ddarn papur maint A4 yn hanner ac yn hanner eto a'i agor allan i greu 4 gwagle/blwch y gallwch ddarlunio yr hyn a ddychmygwch wrth wrando ar y darnau. 2. Ail-gynlluniwch glawr y llyfr 'Greta's Story'. (1. Choose 4 very different pieces of music, fold an A4 paper in half and in half again before opening it out to reveal 4 spaces/boxes to draw what you imagine when listening to the pieces. 2. Re-design a book cover for 'Greta's Story'.)
Dyniaethau	1. Archwiliwch tablau a graffiau lefel y môr drwy glicio yma https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/209485/Sea_Level_summary_report_-_website.pdf ac ysgrifennwch baragraff o esboniad – e.e. tablau a graffiau o beth ydyn nhw? Beth a welwch wrth gymharu'r data. Gallwch ddefnyddio Google docs yn Google Apps yn Nosbarth Google Gwenllian i gofnodi. 2. Hanes **Cyfnod Covid19** cyflwyniad Google Slides o'ch profiad personol chi, yn eich geiriau chi. (Study the tables and graphs of UK sea level by clicking on the link above and write a paragraph of explanation – e.g. what do they show, what do you see as you compare the data… You can record on Google Docs from the Google Apps menu - the grid of 9 dots - in Dosbarth Google Gwenllian. 2. History a Google Slides presentation of the time of Covid19 and their personal experience.
	Wel blantos, dyma'r darnau gwaith olaf y byddwch yn eu cael oddi wrtha i. Diolchwch i'ch rhieni am eu cymorth a'u cefnogaeth wrth i chi weithio o adref. Mae wedi bod yn brofiad rhyfedd i ni gyd ond dwi'n siwr ein bod ni wedi meithrin sgiliau newydd, wedi datblygu i weithio'n well yn annibynnol ac wedi mwynhau gwario amser o ansawdd gyda'r teulu. Pob hwyl, Mrs M :)